# YR ATODLEN

## Cynnwys cynllun datblygu ysgol

### Staff yr ysgol ac adnoddau'r ysgol

**5.** Manylion am sut y bydd y corff llywodaethu yn gwneud y defnydd gorau—

(a) o staff presennol yr ysgol ac adnoddau presennol yr ysgol (gan gynnwys ei hadnoddau ariannol) er mwyn cyflawni targedau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol; a

(b) o staff yr ysgol ac adnoddau'r ysgol (gan gynnwys adnoddau ariannol) y mae'r corff llywodraethu yn rhag-weld y byddant ar gael iddo er mwyn cyflawni targedau gwella'r ysgol ar gyfer y ddwy flynedd ysgol nesaf yn union ar ôl y flwyddyn ysgol gyfredol.